Children in Wales
Plant yng Nghymru

Welsh Refugee Council
Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Papur Briffio ar Roi Plant Mewn Canolfannau Cadw

Cyflwyniad

1. Wedi'i sefydlu ym 1990, Cyngor Ffoaduriaid Cymru yw'r brif asiantaeth sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw rhoi grym i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ailadeiladu eu bywydau. Sefydliad ymbarél yw Plant yng Nghymru ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru i hybu buddiannau plant a phobl ifanc a gweithredu i ateb eu hanghenion. Rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda Plant yng Nghymru ers 2000 i feithrin gallu er mwyn helpu rhai o'r plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

'Treuliais wyth mis a 24 diwrnod (mewn canolfan gadw)….dyna'r peth anoddaf i mi ei wynebu erioed. Mae'n uffern. Mae carchar yn well na chanolfan gadw….Yn y carchar, mae gennych chi hawliau, nid hawliau cudd. Mewn canolfan gadw, does gennych chi ddim hawliau.....' (Jaques, 17 oed) *

'Ar ôl bod yn y ganolfan gadw, doedd Michael ddim yn dda o gwbl. Dechreuodd wlychu'r gwely eto ac roedd e'n cael hunllefau. Fyddai e ddim yn mynd i fyny'r grisiau hebdda i…roedd gan Michael ofn i'r heddlu ddod eto.' (Marcia, mam Michael, 7 oed)*

2. Bob blwyddyn, mae tua 2,000 o blant yn y DU yn cael eu rhoi mewn canolfan gadw at ddibenion rheoli mewnfudo. Ers 2001, gall plant sy'n agored i reoliadau mewnfudo gael eu rhoi mewn canolfan gadw ar yr un sail ag oedolion.** Dyma'r unig blant yn y wlad sy'n gallu cael eu rhoi dan glo am gyfnod amhenodol heb arolygiaeth farnwrol.

Y Broses Gadw

3. Mae llywodraeth y DU yn cyfiawnhau rhoi pobl mewn canolfannau cadw drwy ddweud y byddai teuluoedd yn dianc pe bydden nhw'n cael eu rhyddhau, neu drwy ddweud eu bod ar fin cael eu symud o'r wlad. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, teuluoedd yw'r rhai lleiaf tebygol o ddianc am eu bod nhw wedi dechrau ailadeiladu eu bywyd yng Nghymru er mwyn i'w plant gael bywyd diogel, heb erledigaeth na thrawma. Er ein bod yn deall bod unrhyw broses loches yn rhoi'r llywodraeth yn gyfrifol am ddychwelyd pobl i'w mamwlad, yr hyn sy'n arbennig o ddychrynllyd i ni yw'r adroddiadau gan deuluoedd bod plant yn dioddef creulondeb systematig yn fynych.

Cyn y ganolfan gadw

- Pobl yn cael eu symud yn gynnar yn y bore – niferoedd mawr o swyddogion mewnfudo'n rhuthro i mewn i gartrefi teuluoedd – yn sydyn mae 8 – 10 o ddynion mawr yn y tŷ, sy'n frawychus a dychrynllyd i blant.
- Dim cyfleusterau toiled wrth gael eu cludo a'r daith yn aml yn cymryd oriau, heb stopio i fynd i'r toiled – plant yn cael eu gorfodi i wlychu neu faeddu eu hunain.
- Teithiau hir heb fwyd na dŵr.
- Plant yn cael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni am y daith gyfan neu ran ohoni.

Yn y ganolfan gadw

- Plant ag anableddau'n cael eu carcharu heb ddarpariaeth na gofal addas. ***
- Gorchmynion amddiffyn plant yn cael eu hanwybyddu'n llwyr gan arwain at blant yn cael eu gadael gyda'u camdrinwyr a'u rhoi mewn perygl o gael eu dychwelyd gyda nhw. ****
- Plant yn cael eu rhoi dan glo, yn cael pobl yn gweiddi arnynt, ac yn dioddef cyfleusterau anaddas i blant a staff heb ymddygiad priodol.
- Plant yn gorfod cadw at amseroedd bwyta llym a diffyg dewis o ran bwyd.
- Plant yn gorfod cael eu tywys drwy rai rhannau o'r ganolfan gan staff y ganolfan gadw.
- Plant yn gorfod gweld eu rhieni mewn stad anobeithiol eithriadol. Bydd rhieni'n aml yn dweud wrth ein gweithwyr achos bod canolfannau cadw'n achosi trawma i'w plant a bod yr effaith yn para'n hir.

Effaith cyfnod mewn canolfan gadw

4. Gall cyfnod mewn canolfan gadw gael effaith andwyol ar blant. Maen nhw'n cael eu cipio o'u cymunedau heb ddeall fawr ddim am beth maen nhw wedi'i wneud i fod dan glo. Gall cyfnod mewn canolfan gadw effeithio'n fawr ar iechyd meddwl a chorfforol plentyn. Bydd ein gweithwyr achos yn aml yn gweld plant yn dioddef aflonyddwch mawr ac yn dangos set o symptomau y mae NICE***** yn cyfeirio atynt fel arwyddion o straen wedi trawma, e.e. gwlychu'r gwely, crio gyda'r nos, hunllefau, pryder am eu dyfodol, anawsterau yn yr ysgol a phroblem uniaethu â'u teuluoedd a'u ffrindiau.

5. Mae'r rhain i gyd yn codi cwestiynau difrifol iawn am ddiogelu ac amddiffyn plant ac maen nhw'n amlwg yn mynd yn groes i benderfyniad diweddar llywodraeth y DU i gael gwared ar ei hawl i hepgor yr hawliau sy'n effeithio ar fewnfudo o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig wedi cydnabod bod angen gwneud rhywbeth, oherwydd ar 6 Ionawr cyflwynodd yr Asiantaeth God Ymarfer i Ddiogelu Plant rhag Niwed. Mae hwn yn gorfodi contractwyr a staff asiantaethau i sicrhau bod y cod yn cael ei barchu o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mewn canolfannau cadw nid oes unrhyw beth wedi newid ac mae plant yn dal i wynebu cam-drin systematig yn ddyddiol.

Materion Polisi

6. Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno hefyd i gyflwyno, mewn deddfwriaeth yn y dyfodol, ddyletswydd ar yr Asiantaeth Ffiniau sy'n cyfateb i Adran 11 yn y Ddeddf Plant. Ond, yn anffodus, nid yw'r Mesur Plant a Phobl Ifanc 2008 arfaethedig yn cyfeirio o gwbl at roi plant a theuluoedd mewn canolfannau cadw.

Materion Data

7. Yn wir, yn y ffigyrau ar gyfer 2007 a ryddhawyd gan y Swyddfa Gartref ym mis Chwefror eleni, mae plant sydd mewn canolfannau cadw o dan bwerau mewnfudo'n cael eu cofnodi drwy gyfrwng cip-gofnodion unwaith y mis.* Nid oes unrhyw ystadegau manwl yn bodoli ac nid oes unrhyw gofnod o blant yn cael eu rhoi mewn canolfannau cadw fwy nag unwaith, neu blant y mae'r Swyddfa Gartref yn anghytuno ar eu hoedran ac felly'n eu rhoi mewn canolfan gadw fel oedolion. Yn yr achosion hyn, byddant yn rhannu ystafelloedd ag oedolion, gan eu rhoi mewn perygl o gael eu cam-drin eto. Yng ngeiriau Ann Owers, Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi, ym mis Mai 2008:

'***Ni all canolfan symud mewnfudwyr fod yn lle addas i blentyn ac roeddem wedi'n siomi'n fawr i weld achosion o blant anabl mewn canolfannau cadw a phlant yn treulio cyfnodau hir dan glo. Roeddem yn pryderu am aneffeithiolrwydd a diffyg cywirdeb y gwaith o fonitro'r broses gadw yn y maes pwysig iawn yma.'***

Galw ar yr Awdurdodau i Weithredu

Rydym yn credu y dylai llywodraeth y DU gymryd y camau canlynol:

- Sicrhau mai'r cam olaf un yw canolfannau cadw ar ôl ystyried pob llwybr cyfreithiol arall.
- Sicrhau bod y broses gadw'n destun arolygiaeth farnwrol bob amser.
- Sicrhau amgylcheddau diogel ac addas i blant, a bod staff yn atebol ac â chymwysterau priodol.
- Bod yn dryloyw a darparu ystadegau manwl a diweddar a gweithdrefnau monitro amddiffyn plant.
- Archwilio dulliau eraill mwy ystyrlon o gadw mewnfudwyr.
- Derbyn cyfrifoldeb llawn am weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a chymryd camau tuag at wneud hynny.
- Sicrhau na ddylai buddiannau'r plentyn ddod yn ail i ofynion rheoli mewnfudo.

Ffynonellau

*Dyfyniadau allan o 'No Place for a Child', Achub y Plant, Dr Heaven Crawley a Trine Lester
**Ffigwr amcangyfrifiedig allan o 'No Place for a Child', ymchwil gan Dr Heaven Crawley
***Adroddiad gan Brif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi ar arolwg lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Gadw Mewnfudwyr Yarls Wood 4 – 8 Chwefror 2008
****Mae'r Consortiwm ar gyfer Plant Ffoaduriaid a Chyngor Ffoaduriaid Cymru wedi nodi achosion lle mae gorchmynion amddiffyn plant wedi cael eu torri.
*****Canllawiau clinigol 26 NICE – Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol – i weithwyr proffesiynol ar gyfer gwneud diagnosis o straen wedi trawma mewn plant.
******Gweler ystadegau'r Swyddfa Gartref a ryddhawyd Chwefror 2009 ar gyfer 29 Rhagfyr 2007
Roedd 38% o blant wedi bod mewn canolfan gadw am 15 – 28 diwrnod

Roedd 29% o blant wedi bod mewn canolfan gadw am 29 diwrnod – 2 mis
Roedd 15% o blant wedi bod mewn canolfan gadw am 2 – 3 mis

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â

Daisy Cole, Swyddog Polisi Plant, Cyngor Ffoaduriaid Cymru daisy.cole@welshrefugeecouncil.org
Ffôn 02920 489 800 www.welshrefugeecouncil.org
Sean O'Neill, Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru sean.o'neill@childreninwales.org.uk
Ffôn 02920 342 434 www.childreninwales.org.uk